

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio (2025-2035)
Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Holly Howe-Davies, Iechyd Meddwl Oedolion a Grwpiau Agored i Niwed
Adran:	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwchswyddog Cyfrifol (enw):	Matt Downton
Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:	Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Dyddiad Dechrau:	Ionawr 2024

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut ydych chi wedi / y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau gweithredu a gynigir yn y polisi a'r cylch cyflenwi drwyddo draw?

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi '**Dealltwriaeth**', sef Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio newydd, a fydd yn disodli **Siarad â fi 2: y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio ar gyfer 2015-2022**.

Mae'r strategaeth yn cyflwyno gweledigaeth gyffredinol ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru, ochr yn ochr â chyfres o egwyddorion craidd, chwe amcan lefel uchel a Chynllun Cyflawni 3 blynedd sy'n amlinellu sut y byddwn yn cyflawni'r amcanion hyn.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio newydd, rydym wedi ystyried a chymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (fel y nodir isod).

Ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Integredig hwn, rydym hefyd wedi cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Hirdymor:

Yng Nghymru, roedd 14.0 o farwolaethau fesul 100,000 o bobl yn 2023 (386 o farwolaethau)¹. Mae hyn yn gyson â'r ffigurau sydd wedi'u cofnodi dros y degawd diwethaf, sy'n nodi bod tua 330 o farwolaethau cofrestredig drwy hunanladdiad ar gyfartaledd (cyfradd gyfartalog o 12.4 o hunanladdiadau cofrestredig fesul 100,000 o bobl bob blwyddyn) yng Nghymru².

Mesur arall o hunanladdiad yng Nghymru yw'r System Gwyliadwriaeth Amser Real Hunanladdiad Tybiedig (RTSSS), a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Ebrill 2022 ac sy'n cofnodi data hunanladdiad tybiedig amser real yn uniongyrchol trwy'r pedwar heddlu yng Nghymru. Yn ystod 2023/24, bu farw 350 o drigolion Cymru yng Nghymru neu'r tu allan i Gymru o ganlyniad i hunanladdiad tybiedig, sy'n gyfradd o 12.4 fesul 100,000 o bobl. Ymhen amser, bydd modd defnyddio'r RTSSS hefyd i sefydlu patrymau cyfraddau hunanladdiad hirdymor yng Nghymru.

¹ [Suicides in England and Wales - Office for National Statistics](#)

² [Suicides in England and Wales Statistical bulletins - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#)

Bu cynnydd mewn cyfraddau hunan-niweidio yng Nghymru ymhlith y rhai 10-17 oed³. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod 1 o bob 4 menyw ifanc ac 1 o bob 10 dyn ifanc wedi hunan-niweidio ar ryw adeg yn eu hoes⁴. Er gwaethaf hyn, nodir mai dim ond 38% o bobl sy'n hunan-niweidio sy'n derbyn cymorth meddygol a/neu seicolegol.

Hefyd, rydym yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth gan wasanaethau iechyd meddwl, a "dyma'r sefyllfa ariannol fwyaf heriol yr ydym wedi'i hwynebu ers datganoli"⁵. Mae heriau ehangach yn bodoli hefyd – er enghraifft, anghydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau⁶, profiadau a chanlyniadau^{7 8}; diffyg data a thystiolaeth gadarn yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio (e.e. astudiaethau sy'n adrodd am achosion o hunan-niweidio sy'n seiliedig ar ddata clinigol o un gwasanaeth, gan arwain at danamcangyfrif)⁹; ac anawsterau mewn darparu gweithlu cynaliadwy¹⁰.

Mae'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau hirdymor hyn. Mae'r amcanion yn darparu fframwaith ar gyfer sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy, gweithio ar draws sectorau i fynd i'r afael â phrif sbardunau hunanladdiad a hunan-niweidio, targedu cymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed, datblygu rhwydwaith cymorth cynaliadwy a thosturiol, a gweithio i godi ymwybyddiaeth a dad-stigmatiddio hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru.

Atal:

Mae mynd i'r afael â phrif sbardunau hunanladdiad a hunan-niweidio yn un o amcanion allweddol y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio newydd. Hefyd, mae'n elfen allweddol o'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol ategol. Cydnabyddir pwysigrwydd gweithio ar draws sectorau er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n gallu arwain at bobl yn cael teimladau hunanladdol ac yn hunan-niweidio. Nodir bod yna ddibyniaeth ar Adrannau eraill y Llywodraeth i gyflwyno strategaethau a pholisïau sy'n helpu i fynd i'r afael ag iechyd meddwl gwael a gofid emosiynol, a bydd y trefniadau llywodraethu cryfach yn golygu bod modd datblygu a chyflwyno rhagor o gamau gweithredu trawslywodraethol er mwyn helpu i wireddu gweledigaeth y strategaethau.

Integreiddio:

³ Yr Athro Ann John et al., 'Adolygiad Hanner Ffordd ar weithredu Siarad â Fi 2: cynllun gweithredu atal hunanladdiad a hunan-niwed Cymru' (2018) Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/strategaeth-gweithredu-atal-hunanladdiad-a-hunan-niwed-2015-i-2020-adolygiad-hanner-ffordd.pdf>

⁴ [apms-2014-suicide.pdf](#)

⁵ Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar y Gyllideb 2023-24 (9 Awst 2023) | LLYW.CYMRU

⁶ [Understanding inequalities in access to adult mental health services in the UK: a systematic mapping review - PMC](#)

⁷ [289_2286_1_PB.pdf](#)

⁸ [Alcohol and self-harm: A qualitative study | Alcohol Change UK](#)

⁹ [Social services utilisation and referrals after seeking help from health services for self-harm: a systematic review and narrative synthesis | BMJ Public Health](#)

¹⁰ [Sustaining Mental Health Services: Investing in Workforce Wellbeing - Harmless](#)

Mae adran *cyd-destun strategol* y strategaeth yn amlinellu cyd-destun polisi ehangach y strategaeth a'i pherthynas ag ymrwymïadau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr ymrwymïadau sy'n gosod yr amcanion strategol ar gyfer popeth rydym ni'n ei wneud e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Cymru Iachach. Hefyd, mae'n cydnabod y croestoriadau rhwng y strategaeth a meysydd polisi eraill y mae'r strategaeth yn dibynnu arnynt i gyflawni ei hamcanion – ac i'r gwrthwyneb.

Mae Amcan 2 yn parhau â'r thema hon, gan gydnabod bod prif sbardunau hunanladdiad a hunan-niweidio y tu allan i gylch gwaith tîm Hunanladdiad a Hunan-niweidio Llywodraeth Cymru. Felly, er mwyn darparu ymyriadau atal llwyddiannus ac ymatebion tosturiol i hunanladdiad a hunan-niweidio, mae angen gwneud gwaith integredig ar draws y llywodraeth sy'n cwmpasu sawl sector. Mae cyflwyno'r strategaeth a chynlluniau cyflawni ategol yn gyfle i integreiddio cynlluniau rhwng adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau allanol er mwyn cyflawni amcanion sy'n fuddiol i'r ddwy ochr.

Cydweithio:

Mae'r strategaeth newydd yn cydnabod y gall pawb gyfrannu at ein hamcanion i atal hunanladdiad a chefnogi pobl sy'n hunan-niweidio. Mae ein partneriaid yn cynnwys y cyhoedd a'r rhai sydd â phrofiad bywyd, byrddau iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector, a'r cyfryngau. Mae Amcanion 3, 4 a 5 yn cydnabod y gall pobl sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio fyw yn unrhyw le. Felly, mae angen nodi'r perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio, ac ymateb mewn ffordd dosturiol sy'n canolbwyntio ar unigolion ble bynnag a phryd bynnag y maent ymgylwyno er mwyn sicrhau nad yw'r sefyllfa yn gwaethygu. O ganlyniad, mae'r strategaeth hon yn hyrwyddo dull system gyfan.

Cyfranogiad (gweler adran 8 hefyd):

Yn ystod haf 2023, cynhaliwyd gwaith ymgysylltu cyn-ymgynggori i gael adborth cychwynnol gan randdeiliaid ar y datganiadau o weledigaeth arfaethedig a'r egwyddorion ategol, ar gyfer y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a'r hyn a enwyd ar y pryd yn Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Roedd hyn yn cynnwys arolwg ar-lein, a gwblhawyd gan dros 250 o unigolion a sefydliadau.

Ym mis Chwefror 2024, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 16 wythnos. Roedd hyn yn gyfle i'r cyhoedd gymryd mwy o ran yn natblygiad yr hyn a enwyd ar y pryd yn Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Fel rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol, gwnaethom ymgysylltu'n benodol â rhanddeiliaid sydd â nodweddion gwarchodedig a grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Cafodd gwaith penodol ei wneud gyda phlant a phobl ifanc hefyd – gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb am ragor o fanylion. Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddwyd crynodeb o'r 126 o ymatebion i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â chanfyddiadau allweddol o'r ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc.

Roedd ymgysylltiad pellach â Grŵp y Strategaeth Ddrafft Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Weithrediaeth y GIG, Samariaid Cymru a'r byd academiaidd, yn hyrwyddo trafodaeth am y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriad cyhoeddus a sut y gellid diwygio'r strategaeth i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd. Hefyd, bu'r Grŵp Drafftio yn cynorthwyo tîm hunanladdiad a hunan-niweidio Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun cyflawni ategol sy'n nodi'r camau gweithredu mwy tymor byr i gyflawni amcanion y strategaeth.

Effaith:

Rydym wedi datblygu'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-Niweidio newydd ar y cyd â'n partneriaid, ac mae pobl wedi mynegi cefnogaeth i gyhoeddi a chyflwyno'r strategaeth.

Nododd yr Adolygiad Annibynnol o Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Siarad â fi 2 fod angen rhagor o welliannau i'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth. Gan ganolbwyntio ar brif gasgliadau'r adolygiad, bydd y strategaeth hon yn cael ei chefnogi gan drefniadau llywodraethu mwy cadarn a fframwaith monitro a fydd yn ein helpu i sbarduno ac olrhain cynnydd ac effaith yn fwy effeithiol. Er mwyn sicrhau bod y strategaeth hon yn cael effaith ac yn cyflawni ei hamcanion, nodir bod angen sylfaen dystiolaeth fwy cadarn a dull gweithredu ar draws y Llywodraeth ac ar draws asiantaethau. Mae Amcanion 1 a 2 wedi'u datblygu'n benodol i roi'r newidiadau hyn ar waith.

Costau ac Arbedion:

Mae'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-Niweidio yn cael ei datblygu yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol, felly rydym wedi datblygu'r strategaeth ar sail y ddealltwriaeth y bydd angen creu ffordd o osod blaenoriaethau, sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd, a bod yn glir am yr hyn y gellir ei gyflawni yn ymarferol.

Ategir y strategaeth gan gyfres o gynlluniau cyflawni mwy tymor byr sy'n rhoi cyfle i adolygu camau gweithredu yng nghyd-destun y cyllidebau sydd ar gael ar adegau gwahanol o oes y strategaeth. Bydd y cynlluniau cyflawni yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n sicrhau bod modd archwilio cyfleoedd ar gyfer buddsoddi, a manteisio arnynt os oes cyllideb ychwanegol ar gael.

ADRAN 8. CASGLIAD

8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio wedi cael ei datblygu mewn cydweithrediad â phobl sydd â phrofiad bywyd. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â grwpiau allweddol, gan gynnwys y Bwrdd Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, y Fforwm Defnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl, y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru, y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Iechyd Meddwl Lleiafrifoedd Ethnig, Senedd Ieuenctid Cymru a Grwpiau Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol. Hefyd, rydym wedi ystyried canfyddiadau ymgynghoriadau diweddar eraill, gan gynnwys ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y **Strategaeth Tlodi Plant ddrafft**.

Ym mis Gorffennaf 2023, cynhaliodd y Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol grŵp ffocws er mwyn rhoi adborth ar y datganiadau gweledigaeth drafft. Roedd yr adborth gan y grŵp yn canolbwyntio ar y gofyniad i gynyddu ymwybyddiaeth o anhwylderau bwyta, hunanladdiad a hunan-niweidio mewn ysgolion, a gwella mynediad at wasanaethau yn dilyn diagnosis deul o iechyd meddwl a niwroddatblygiad. Hefyd, roedd yr elusen Mind wedi gwneud gwaith ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn llywio'r broses o ddrafftio'r strategaeth. Yn ystod y cyfnod yn arwain at gyhoeddi'r strategaeth ddrafft, cynhaliwyd gweithdai a thrafodaethau ychwanegol gyda phlant a phobl ifanc, Senedd Ieuenctid Cymru, y Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant (CRAG), a'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol.

Defnyddiwyd y cyfnod ymgynghori i ddatblygu'r ymgysylltiad blaenorol hwn. Roedd hyn yn cynnwys rhagor o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc gan Lab Cyd-gynhyrchu Cymru, pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac eraill y gallai'r cynigion effeithio arnynt.

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Dyma effeithiau arfaethedig y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio:

1. Gostyngiad blynyddol yn nifer a chyfraddau'r bobl sy'n cyflawni hunanladdiad ac yn ceisio cyflawni hunanladdiad.
2. Canlyniadau gwell ar gyfer pobl sy'n derbyn cymorth ar gyfer hunan-niweidio ac yn synio am hunanladdiad.

3. Canlyniadau gwell ar gyfer pobl sy'n cael eu heffeithio gan hunanladdiad a hunan-niweidio.

Effeithiau Cadarnhaol

Tystiolaeth well i lywio camau gweithredu – Bydd cyflawni Amcan 1 y strategaeth yn hwyluso prosesau symlach ar gyfer casglu, coladu a dehongli data, tystiolaeth, a thystiolaeth o brofiad bywyd; ac yn datblygu seilwaith cadarn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i ddatblygu polisïau, cymorth a gwasanaethau. Bydd hyn yn hwyluso dealltwriaeth well o sbardunau hunanladdiad a hunan-niweidio, y grwpiau mwyaf agored i niwed, a'r dulliau mwyaf effeithiol o gefnogi'r grwpiau hyn. Bydd data a thystiolaeth gadarn hefyd yn helpu i fonitro effaith ein gweithredoedd ar y cyd yn well ac olrhain cynnydd tuag at gyflawni gweledigaeth ac amcanion y strategaeth.

Dull gweithredu mwy cydgysylltiedig – Mae'r strategaeth yn gwneud cysylltiadau â nifer o strategaethau a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus. Mae Amcan 2 yn rhoi cyfle i gryfhau'r cysylltiadau hyn a chyfuno adnoddau er mwyn sicrhau canlyniadau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr a defnyddio cyllid yn fwy effeithlon.

Dull gweithredu wedi'i dargedu sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn – Er y gall unrhyw un fod yn agored i hunanladdiad a hunan-niweidio ar unrhyw adeg o'i fywyd, gwyddom fod rhai pobl mewn mwy o berygl o hunanladdiad a hunan-niweidio nag eraill. Mae enghreifftiau yn cynnwys pobl sy'n defnyddio sylweddau, sydd wedi dioddef cam-drin domestig neu rywiol, sydd angen cymorth tai, sy'n wynebu problemau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb neu wahaniaethu, sy'n ddi-waith neu'n profi straen ariannol, sydd â phroblemau iechyd corfforol neu sy'n niwrowahanol. Mae Amcan 5 yn cydnabod hyn ac yn ceisio sicrhau bod pobl sydd mewn mwy o berygl yn cael eu hadnabod gan y gwasanaethau yr ymglyflynant iddynt, yn cael cynnig cymorth holistaidd a thosturiol, ac yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol.

Mae nifer o wasanaethau yn bodoli eisoes y mae pobl sy'n synio am hunanladdiad neu'r rhai sy'n hunan-niweidio, eu teulu a'u ffrindiau, a gwasanaethau (nad ydynt yn arbenigol) y maent yn ymgysylltu â nhw, yn dibynnu arnynt ar gyfer ymyriadau a/neu driniaeth fwy arbenigol am hunanladdiad a/neu hunan-niweidio. Mae enghreifftiau o'r gwasanaethau hyn yn cynnwys meddygfeydd meddygon teulu, ysbytai, gwasanaethau argyfwng iechyd meddwl, a sefydliadau trydydd sector arbenigol. Nod Amcan 4 yw gweithio gyda'r gwasanaethau hyn er mwyn gwella'r cynnig, llenwi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a sicrhau bod pobl yn derbyn cefnogaeth dosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth estyn allan at bartneriaid dibynadwy.

Eglurder – Mae adborth o'r adolygiad o Siarad â mi 2 yn amlygu'r angen am lywodraethu a monitro mwy cadarn er mwyn hyrwyddo a monitro cynnydd yn erbyn amcanion yn effeithiol. Mae'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig yn darparu manylion er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall beth fydd yn cael ei gyflawni, erbyn pryd a chan bwy. Bydd

fframwaith monitro a gwerthuso a damcaniaeth newid yn cael eu cyhoeddi hefyd er mwyn amlinellu'r newidiadau a ddefnyddir i fesur cynnydd.

Ymateb cyflymach – Bydd datblygu'r dystiolaeth drwy Amcan 1 yn hwyluso mynediad mwy amserol at wybodaeth wrth iddi ddod i'r fei. Byddwn yn gallu nodi tueddiadau yn gyflymach ac ymyrryd er mwyn sicrhau nad yw pethau'n gwaethygu. Mae amcanion 3, 4 a 5 i gyd yn ceisio cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn sicrhau bod modd mynd ati'n gyflym i adnabod y rhai sydd mewn perygl neu sy'n dioddef. Mae Amcan 3 yn nodi sut y gallwn helpu pobl yn y gymuned i adnabod eraill sydd angen help o bosibl, sut i gael sgwrs dosturiol a sut i gyfeirio'r bobl hyn at wasanaethau os oes angen. Mae Amcan 4 yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael i gefnogi rhywun mewn angen trwy ddarparu gwybodaeth a sgiliau i staff trwy gyfrwng hyfforddiant a chefnogaeth, a llenwi bylchau yn y ddarpariaeth. Nod Amcan 5 yw darparu ymateb mwy system gyfan i sicrhau nad oes 'drws anghywir' o ran cael mynediad at gymorth ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio. Trwy'r amcan hwn, byddwn yn nodi gwasanaethau eraill y gallai pobl ymgyflwyno iddynt, er mwyn rhannu'r hyn a ddysgir a sicrhau bod cymorth holistaidd yn cael ei ddarparu ble bynnag a phryd bynnag y bydd ei angen ar rywun. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau cam-drin domestig, lleoliadau addysg, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a gwasanaethau eraill.

Mae Amcan 6 yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth amserol i bobl sy'n cael eu heffeithio gan hunanladdiad neu sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar yr amcan hwn trwy gaffael gwasanaeth profedigaeth cenedlaethol i Gymru.

Lleihau stigma – Roedd yr adolygiad o *Siarad â mi 2* wedi cyfeirio mewn modd cadarnhaol at y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt bod yn agored, cael sgwrsiau am hunanladdiad a hunan-niweidio a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â nhw. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy yn hyn o beth. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod stigma yn parhau i fodoli, yn enwedig ymhlith rhai grwpiau agored i niwed (e.e. dynion canol oed) ac mewn cymunedau penodol (e.e. rhai cymunedau ethnig lleiafrifol). Mae stigma yn rhwystro mynediad at gymorth ac yn gwaethygu'r broblem. Mae mynd i'r afael â stigma yn elfen hanfodol o holl amcanion y strategaeth; mae hynny'n cynnwys cynyddu ein dealltwriaeth trwy Amcan 1, rhannu'r wybodaeth hon i ddylanwadu ar bolisi a chmau gweithredu trwy Amcan 2, cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth trwy amcanion 3, 4 a 5, neu addysgu ac arwain yr asiantaethau sy'n ymateb yn dilyn marwolaeth trwy hunanladdiad trwy Amcan 6.

Effeithiau Negyddol:

Cost – Mae angen buddsoddi er mwyn datrys materion mewn cymdeithas fel hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae hunanladdiad a hunan-niweidio yn faterion y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â nhw ochr yn ochr â gwella gwasanaethau'r GIG yn ehangach, trechu tlodi ac ymateb i newid yn yr hinsawdd, i enwi dim ond rhai.

Mewn cyfnod o gyfyngiad ariannol digynsail, mae cyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen yn fwyfwy heriol. Fodd bynnag, rhoddwyd ystyriaeth i'r sefyllfa ariannol wrth lunio'r strategaeth, a bydd yn caniatáu dull mwy cydgysylltiedig a phwrpasol o ddarparu cymorth, gan ein galluogi i wneud mwy gyda llai ac adolygu camau gweithredu wedi'u cynllunio o bryd i'w gilydd yng nghyd-destun y gyllideb sydd ar gael ar y pryd.

Esgor ar emosiynau anodd – Er bod y strategaeth yn gobeithio grymuso pobl i fod yn agored am hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru, rydym yn cydnabod y gall y pynciau hyn esgor ar emosiynau anodd, a gallai hyrwyddo strategaeth genedlaethol gael effaith negyddol anfwriadol ar les meddyliol rhai pobl. Dyma pam y bydd unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo yn cael eu trin yn ofalus iawn ac y byddant yn cael eu hategu gan gyngor ar sut i gael gafael ar wasanaethau cymorth.

Cyngor Gweinidogol a phenderfyniad:

Mae swyddogion yn y Tîm Hunanladdiad a Hunan-niweidio wedi cyflwyno copi o'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio wedi'i hail-ddrafftio, a'r cynllun cyflawni cysylltiedig, i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Cafwyd sêl bendith y Gweinidog i gynnwys a strwythur y strategaeth a chymeradwyodd Cabinet Llywodraeth Cymru y strategaeth ar 17 Mawrth 2025 i'w chyhoeddi.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Trwy ei gweledigaeth a'i hamcanion, mae'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn cefnogi'n uniongyrchol y saith nod llesiant cysylltiedig i Gymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys Cymru gydnerth, Cymru iachach, a Chymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r strategaeth wedi'i datblygu yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf, sy'n dweud bod yn rhaid i ni:

- ystyried y tymor hir
- helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu
- defnyddio dull gweithredu integredig
- defnyddio dull gweithredu cydweithredol
- ystyried a chynnwys pobl o bob oed a gyda nodweddion ac anghenion amrywiol

Drwy ymwreiddio'r egwyddorion hyn wrth ddatblygu'r strategaeth a'r amcanion, mae'r cyd-destun 'llesiant' wedi'i sefydlu er mwyn datblygu'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig a fydd yn cyflwyno'r camau gweithredu wedi'u targedu mwy tymor byr ac yn gwireddu'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer Cymru.

8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Mae "damcaniaeth newid" wedi'i datblygu ar gyfer y Strategaeth sy'n nodi'r dulliau arfaethedig er mwyn i'r strategaeth gyflawni ei hamcanion, yn ogystal â fframwaith canlyniadau, sy'n amlinellu sut y bydd cynnydd yn erbyn ein hamcanion yn cael ei gyflawni.

Mae'r fframwaith canlyniadau yn cynnwys dangosyddion a fydd yn ein galluogi i asesu effaith ein camau gweithredu ar gyflawni'r canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor, a gweledigaeth gyffredinol y strategaeth. Byddwn yn adolygu'r fframwaith yn rheolaidd i sicrhau bod dangosyddion newydd a dangosyddion sy'n dod i'r fei yn cael eu hymgorffori lle bo hynny'n briodol. Hefyd, byddwn yn datblygu cynllun monitro a gwerthuso ar gyfer y strategaeth. Bydd adroddiadau ar gynnydd yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol.

Bydd y broses o gyflwyno'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn cael ei goruchwyllo gan y Bwrdd Strategaeth Hunanladdiad a Hunan-niweidio a fydd yn adrodd i Gyd-fwrdd Sicrwydd y Gweinidogion.

ADRAN 9. DATGANIAD

Datganiad

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-swyddog Cyfrifol / y Dirprwy Gyfarwyddwr:

Adran:

Dyddiad: